| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD |
| **DYDDIAD** | 25 Mawrth 2011 |
| **TEITL** | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Cytundeb Cyflawni drafft |
| **PWRPAS** | Cyflwyno fersiwn drafft o'r Cytundeb Cyflawni er mwyn ymgynghori arno |
| **ARGYMHELLIAD** | Cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus<br><br>Dirprwy'r hawl i Bennaeth yr Adran Rheoleiddio (Cyngor Gwynedd) ac i Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Ynys Mon) i wneud man newidiadau cyn rhyddhau'r ddogfen ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus |
| **AWDUR** | Nia Davies, Rheolwr Polisi Cynllunio (Cyngor Gwynedd) |

## 1. Crynodeb

1.1 Mae penderfyniad Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i gydweithredu i gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi galluogi'r Cynghorau i ddechrau'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd (heb gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri). Pwrpas yr adroddiad hwn yw i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ystyried y Cytundeb Cyflawni drafft ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a chymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni drafft ar gyfer ymgynghori yn ei gylch a'i drafod â rhanddeiliaid perthnasol.

## 2 Y Cynnig

2.1 Mae'n ofyniad statudol ar y Cynghorau i gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol a Chytundeb Cyflawni cysylltiedig. Y brif risg o fod heb fframwaith polisi cynllunio diweddar a gweledigaeth ar gyfer datblygu yn y dyfodol, ar draws ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yw y byddai penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn y dyfodol o bosibl yn cael eu gwneud ar sail hen bolisïau ac ni fyddent yn adlewyrchu anghenion yr ardal.

2.2 Mae Cytundeb Cyflawni drafft ynghlwm fel Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Mae'r Cytundeb Cyflawni drafft yn cynnwys dwy brif adran:

i) Amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog amserlen pedair blynedd o hyd ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a'r cynnig yw y dylai proses y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ddechrau'n ffurfiol ddechrau mis Hydref 2011, h.y. y dyddiad y disgwylir y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno ar y Cytundeb Cyflawni, ac y

daw i ben yn gynnar yn 2016. Yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae gwaith paratoi wedi dechrau cyn y dyddiad dechrau ffurfiol.

ii) Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus, sy’n nodi:

a. pwy y bydd y Cynghorau'n cysylltu â nhw wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd;
b. sut a phryd bydd swyddogion y Cynghorau, Aelodau etholedig, y cyhoedd, grwpiau sydd â diddordeb yn yr ardal a datblygwyr yn cael cyfrannu at y broses gyffredinol;
c. beth sy'n digwydd i'r sylwadau

2.3 Mae'r Cytundeb Cyflawni drafft wedi ystyried y gofynion a nodir yn arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chafodd ei ysgrifennu i adlewyrchu arfer da a lefel yr adnoddau sydd ar gael i'r Cynghorau. Bydd y broses Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd drwy rannu arfer da a chydweithredu'n fewnol a gydag awdurdodau cyfagos e.e. astudiaethau ar y cyd, defnyddio methodolegau arfarnu tebyg.

2.4 Nod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fydd cyflawni datblygu cynaliadwy a diogelu ansawdd yr amgylchedd. Bydd yn ystyried cynlluniau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn mynd drwy nifer o asesiadau i sicrhau bod y polisïau a'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd y Cyundeb Cyflawni drafft yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

2.5 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn effeithio'n uniongyrchol ar yr holl Aelodau sydd â wardiau yn Ynys Môn a Gwynedd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri. Efallai y bydd effaith uniongyrchol ar yr Aelodau hynny sy'n cynrychioli wardiau sydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri hefyd. Mae gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd hefyd oblygiadau i'r holl wasanaethau sydd naill ai ag anghenion datblygu / defnyddio tir yn Ynys Môn a Gwynedd (heb gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri), neu i'r gwasanaethau hynny sy'n dibynnu at y system gynllunio i gael gwelliannau neu i ddarparu gwasanaethau. Yn benodol, bydd angen i wasanaethau sy'n gofyn i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gynnwys polisïau cynllunio sy'n berthnasol i'w maes gwasanaeth penodol ymgysylltu â phroses y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac ymrwymo adnoddau (staff a/neu gyllid refeniw) yn ôl yr angen. Bydd yr angen hwn yn dechrau yn fuan ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yn enwedig oherwydd y bydd angen i bolisi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o'r angen a gofynnir i wasanaethau eraill gymryd rhan neu arwain i'r perwyl hwnnw.

2.6 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn gynllun gofodol ac felly bydd yn edrych ar gydlynu anghenion datblygu a defnyddio tir ac ystyried polisïau partneriaid y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi'r dulliau a gynigir er mwyn cynnwys rhanddeiliaid yn y broses Cynllun Datblygu Lleol.

2.7 Ystyrir bod cynnwys arfaethedig y Cytundeb Cyflawni yn cynrychioli mecanwaith priodol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ac â rhanddeiliaid eraill.

## 3 Ymgynghori â'r cyhoedd

3.1 Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei dargedu at y rheini a gyflwynodd sylwadau ar Gynllun Datblygu Lleol Ynys Môn a dynnwyd yn ôl (Fersiwn Ymgynghoriad Cyn-adneuo), at y rheini sydd wedi cofrestru diddordeb mewn cynllun datblygu lleol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd ac at gyrff ymgynghori penodol a chyffredinol (sy'n cynnwys Cynghorau Tref/Dinas a Chymuned) yn unol â Rheoliadau Cynllun Datblygu 2005.

3.2 Mae swyddogion wrthi'n cwblhau manylion terfynol trefniadau'r ymgynghoriad. Bydd y Cytundeb Cyflawni drafft ar gael ar wefan y naill Gyngor a'r llall, ym mhob llyfrgell gyhoeddus ac ym mhrif swyddfeydd y Cynghorau.

3.3 Bydd sylwadau a gyflwynir ar gyfer y broses ymgynghori yn cael eu bwydo'n ôl i'w hystyried gan Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol Ynys Môn, Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd Gwynedd, Panel y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Pwyllgor Gwaith Ynys Môn a Bwrdd Cyngor Gwynedd. Gofynnir wedyn i bob Cyngor gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni terfynol, fel sy'n ofynnol gan reoliadau, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cytuno arno.

## 4 Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni drafft er mwyn ymgynghori yn ei gylch a'i drafod â rhanddeiliaid perthnasol.

4.2 Dirprwy’r hawl i Bennaeth yr Adran Rheoleiddio (Cyngor Gwynedd) ac i Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (Ynys Mon) i wneud man newidiadau cyn rhyddhau’r ddogfen ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.